Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

# CHI A LLAIS

## Ydych chi'n defnyddio gwasanaethau GIG neu ofal cymdeithasol yng Nghymru?

### Os ydych, gallwch ein helpu i'w gwneud yn well i bawb trwy ddweud eich dweud

**Ac mae eich llais yn fwy pwerus nag erioed o'r blaen**



Llais yw'r **corff cenedlaethol, annibynnol** a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i roi llais cryfach i bobl Cymru yn eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

## Yr hyn a wnawn

Rydyn ni yma i sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn defnyddio'ch safbwyntiau a'ch profiadau i gynllunio a darparu gwell gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae eich tîm Llais lleol yn casglu eich profiadau – da a drwg – o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac yn darparu cymorth i wneud cwynion.

Yna maent yn gweithio gyda darparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol a'r GIG lleol i ymateb i'r pethau sydd bwysicaf i bobl yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Oherwydd ein bod ni'n gorff statudol, mae'n rhaid i sefydliadau'r GIG, awdurdodau lleol a darparwyr gofal trydydd sector wrando.



## Dweud eich dweud

Rydym am glywed gan bobl yn holl gymunedau amrywiol Cymru, yn enwedig y rhai nad yw eu lleisiau bob amser yn cael eu clywed.

**Mae llawer o ffyrdd i ddweud eich dweud:**

- **dywedwch eich stori wrthym** – mae ffurflen adborth cyffredinol 5 munud ar ein gwefan
- **cael cefnogaeth i wneud cwyn**
- **cael cyngor neu wybodaeth am eich gwasanaethau lleol a sut i gael gafael arnynt**
- **mynychu un o'n digwyddiadau lleol rheolaidd**
- **gallwn ymweld â chi ble bynnag yr ydych yn derbyn gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol**

**I gael mwy o wybodaeth ewch i www.llaiscymru.org neu ffoniwch eich tîm Llais lleol**



## Byddwch yn rhan o rywbeth pwysig

Rydyn ni yma i wneud yn siŵr bod barn a phrofiadau pobl yn helpu i wneud gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn well i bawb.

I ddarganfod mwy am Llais a sut y gallwch chi gyfrannu at wella iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru gyda ni, cysylltwch â'ch tîm Llais lleol neu ewch i **www.llaiscymru.org**

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni.

Gallwch hefyd ei lawrlwytho o'n gwefan neu cysylltwch â ni i ofyn am gopi.

# EICH TÎM LLAIS LLEOL

**Caerdydd a Bro Morgannwg**
Yn cwmpasu Caerdydd a Bro Morgannwg.

**Ffôn:** 029 2375 0112

**E-bost:** cardiffandvaleenquiries@llaiscymru.org

**Cwm Taf Morgannwg**
Yn cwmpasu Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.

**Ffôn:** 01443 405830

**E-bost:** cwmtafmorgannwgenquiries@llaiscymru.org

**Gwent**
Yn cwmpasu Casnewydd, Caerffili, Blaenau Gwent, Sir Fynwy a Thorfaen.

**Ffôn:** 01633 838516

**E-bost:** gwentenquiries@llaiscymru.org

**Castell Nedd Port Talbot ac Abertawe**
Yn cwmpasu Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe.

**Ffôn:** 01639 683490

**E-bost:** nptandswanseaenquiries@llaiscymru.org

**Gogledd Cymru**
Yn cwmpasu Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Wrecsam, Conwy, Ynys Môn a Gwynedd.

**Ffôn:** 01978 356178 / 01248 679284

**E-bost:** northwalesenquiries@llaiscymru.org

**Powys**
Yn cwmpasu Sir Drefaldwyn, Sir Frycheiniog a Sir Faesyfed.

**Ffôn:** 01874 624206 / 01686 627632

**E-bost:** powysenquiries@llaiscymru.org

**Gorllewin Cymru**
Yn cwmpasu Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.

**Ffôn:** 01646 697610

**E-bost:** westwalesenquiries@llaiscymru.org

Mae'r daflen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Rydym yn croesawu galwadau a gohebiaeth yn Gymraeg. Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg byddwn yn ymateb i chi yn Gymraeg, ac ni fydd hyn yn arwain at oedi.

LLAIS
Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

© Llais 2023
47256

YMDDIRIEDAETH • CYNWYSOLDEB • ANNIBYNIAETH